

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Llanelwy

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gweithio gyda sefydliadau eraill a'r gymuned i gynllunio a chyflwyno cynllun rheoli perygl llifogydd ar gyfer Llanelwy, a fydd yn lleihau'r perygl o lifogydd o Afon Elwy. Bydd y cynllun yn gweld codi amddiffynfeydd presennol y ddinas, creu amddiffynfeydd newydd ac ail osod pont.

Beth sy'n achosi llifogydd yn Llanelwy?

Mae Afon Elwy yn gorlifo yn Llanelwy yn dilyn glawriad uchel dros ddalgylch yr afon. Mae hyn yn arwain at lefelau dŵr uwch yn yr afon all, yn y pen draw, ddod dros yr amddiffynfeydd sy'n bodoli ar hyn o bryd drwy'r ddinas.

Nid yw'r llanw'n dylanwadu ar lifogydd yn Llanelwy gan fod y ddinas tua 13 metr uwchlaw lefel y môr. Mae cronfa ddŵr Llyn Aled wedi'i lleoli ymhellach i fyny'r afon yn y dalgylch a chaiff ei gweithredu mewn modd nad yw'n effeithio ar lifogydd yn Llanelwy.

Beth yw'r perygl ar hyn o bryd fod Afon Elwy'n achosi llifogydd yn Llanelwy?

Mae llif Afon Elwy yn cynyddu'n gyflym ar ôl glaw trwm o fewn y dalgylch. Ym mis Tachwedd 2012, cafodd amddiffynfeydd llifogydd y ddinas eu goresgyn wrth i law cyson, dwys, ar dir gwlyb iawn achosi'r afon i godi dros tair metr uwchlaw ei lefel arferol. Amcangyfrifwyd fod y posibilrwydd fod llifogydd fel hyn yn digwydd rhwng un mewn 100 ac un mewn 200 mewn unrhyw un flwyddyn.

Lle mae angen gwelliannau i reoli perygl llifogydd?

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sêl bendith i gynllun llawer mwy i leihau y perygl o lifogydd yn Llanelwy.

Bydd y cynllun yn gwella rheoli perygl llifogydd ledled Llanelwy, o uwchben y New Inn i lawr y tu hwnt i Spring Gardens.

Beth yn union ydy'r cynllun?

Mae'r cynllun yn cynnwys codi'r amddiffynfeydd presennol drwy'r ddinas, drwy gyfuniad o argloddiau a waliau uwch. Byddai hyn yn codi'r amddiffynfeydd rhwng 0.4 metr ac 1.0 metr uwchlaw'r lefelau presennol. Bydd amddiffynfeydd newydd yn cael eu hadeiladu yn uwch i fyny na Phont Llanelwy ger Garej Fountains, ac ar hyd Ffordd Isaf Dinbych i fyny'r afon o'r New Inn. Yn ogystal, rhoddir pont gyda rhychwant uwch yn lle Pont Spring Gardens fel nad yw'n rhwystro sianel yr afon pan mae'r llif yn uchel. Bydd gwaith atal llifogydd yn digwydd yn Nol Afon a Rhuddlan hefyd.

Beth nesaf?

Byddwn yn dechrau adeiladu Pont Spring Gardens ym mis Hydref 2016, gyda'r gwaith adeiladu ar ail ran y cynllun i ddechrau yn Ionawr 2017, yn amodol ar gael pob caniatad yn ei le. Bydd y cynllun cyfan yn cymryd rhwng 12 a 18 mis i'w gwblhau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi'r contract ar gyfer adeiladu darn cyntaf y cynllun llifogydd i Dawnus, cwmni o Ogledd Cymru.

Mae hyn yn cynnwys cael gwared â Phont Spring Gardens ac adeiladu pont uwch. Bydd hyn yn galluogi i ddwr lifo'n rhyddach, ac felly'n gostwng lefel dwr llifogydd yn Llanelwy.

Fe fydd ail ran y cynllun yn canolbwyntio ar wella amddiffynfeydd yn y ddinas ac mewn mannau eraill, fydd o fudd i adeiladau a'r ardal ehangach. Rydan ni'n cynnal trafodaethau efo Dawnus ar hyn o bryd ynglyn â chytundeb am gyfer y gwaith yma.

Beth sy'n digwydd o ran rheoli perygl llifogydd yn ystod y cyfnod adeiladu?

Hyd nes bydd y cynllun wedi'i gwblhau, bydd camau tymor byr i leihau'r perygl llifogydd yn parhau ar Afon Elwy. Mae hyn yn cynnwys gosod rhwystrau llifogydd dros dro pan fo angen ar hyd llecyn 150 metr o'r afon.

Faint o ymyrraeth fydd yna yn Llanelwy yn ystod y cyfnod adeiladu?

Bydd rhywfaint o anghyflestra, ond mae CNC a Dawnus am weithio i gadw hyn i'r isafswm. Byddwn yn ceisio cadw llwybrau cyhoeddus yn agored neu roi gwyradau yn eu lle os bydd angen. Byddwn yn rhoi enwau a rhifau cyswllt ichi ar gyfer ymholiadau yn ystod y gwaith adeiladu.

Ydy pob caniatad yn ei le ar gyfer y gwaith adeiladu?

Mae caniatad cynllunio wedi'i roi gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer adeiladu pont Spring Gardens. Mae cais cynllunio ar gyfer yr amddiffynfeydd newydd a chodi'r hen rai wedi'i wneud i Gyngor Sir Ddinbych ddiwedd Medi gan ddisgwyl penderfyniad erbyn Rhagfyr 2016. Cafwyd caniatad i weithio ar Gomin Llanelwy gan Lywodraeth Cymru ym Medi 2016.

Beth yw'r effeithiau amgylcheddol?

Rydym wedi gwneud asesiad manwl o effeithiau'r cynllun. Wrth adeiladu byddwn yn ystyried:

- Sicrhau'r effaith leiaf ar yr afon a choridor glan yr afon i bobl a bywyd gwylt; bydd hyn yn cynnwys yr effaith leiaf bosibl ar goed a chynefinoedd;
- Yr effeithiau ar ardaloedd cadwraeth a nodweddion treftadaeth lleol. Er enghraifft, bydd yr amddiffynfeydd newydd yn cael eu gosod ar hyd llinell newydd i wella edrychiad y bont hynafol ac rydym yn gweithio efo Cadw a Cyngor Sir Ddinbych i ddehongli'r nodwedd bwysig hon, sy'n Heneb Gofrestredig.
- Creu gwelliannau amgylcheddol, lle bydd hyn yn bosibl, fel rhan o'r cynllun. Bydd rhain yn cynnwys gwella llwybrau troed a beic yn Llanelwy, rhoi hwb i fioamrywiaeth drwy blannu coed a chylchau'r gog.

Sut mae cael rhybuddion llifogydd?

Gall pawb sy'n bryderus ynghylch llifogydd weld beth yw eu perygl llifogydd a chanfod a oes gwasanaeth rhybuddion llifogydd rhad ac am ddim ar gael yn eu hardal trwy ffonio Floodline ar 0345 988 1188 neu drwy edrych ar www.naturalresources.wales/flooding.

Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych angen gwybodaeth bellach ewch i'n gwefan:

<https://naturalresources.wales/stasaph>

Cyfeiriad ebost y cynllun: cynllun.llifogydd.llanelwy@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Neu cysylltwch â'n Rheolwr Prosiect:

John.m.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk / 0300 065 3858.